# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon yr **holl** Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi'u cwblhau i flwch negeseuon e-bost CRIA@llyw.cymru

### 1. Amcanion polisi

Disgwylir i waharddiad ar gyflenwi weips gwlyb sy'n gynnwys plastig yng Nghymru ddod i rym ar y 18fed o Ragfyr 2026 a bydd yn cyd-fynd â gwaharddiadau sy'n cael eu cyflwyno yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae ein polisi yn ceisio:

- Lleihau'n gyflym y niwed amgylcheddol a achosir gan lygredd plastigau a microblastigau, yn enwedig yn ein hafonydd a'n moroedd, yn sgil gwaredu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn anghywir.
- Annog newid tuag at ddewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio neu rhai di-blastig.
- Cefnogi ein hamcan strategol ehangach o fynd i'r afael â'r diwylliant gwastraffus trwy annog newid mewn ymddygiad mewn perthynas â defnyddio cynhyrchion untro.

Byddwn yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 (Deddf 2023) i gyflwyno ein rheoliadau. Mae hyn yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi, gan gynnwys eu cyflenwi'n rhad ac am ddim, gynnyrch untro a bennir yn Atodlen Deddf 2023.

### 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Er mwyn datblygu ein Polisi, fe wnaethom gasglu tystiolaeth o astudiaethau gwyddonol presennol, arolygon cyhoeddus, ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori cyhoeddus. Mae ein gwaith hefyd wedi ystyried, a lliniaru yn erbyn, unrhyw effeithiau negyddol posibl o wahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar unigolion, grwpiau, busnesau a sefydliadau eraill. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr y Senedd Ieuenctid a grŵp cymunedol etholaeth lleol lle'r oedd plant a phobl ifanc yn bresennol. Gofynnom hefyd am safbwyntiau pobl ifanc drwy Plant yng Nghymru, y sefydliad ymbarél ar gyfer y rhai

sy'n gweithio gyda phobl ifanc yng Nghymru, a gysylltodd â nhw ar ein rhan. Gweler isod am fwy o fanylion. **Trosolwg o ymgysylltu a thystiolaeth a gasglwyd**

Datblygwyd y cynigion polisi cyn pandemig COVID-19 a chynhaliwyd yr ymgynghoriad cychwynnol yn ystod cyfnod o gyfyngiadau cenedlaethol. Felly, nid oeddem yn gallu cynnal sesiynau ymgysylltu wyneb yn wyneb.

Yn gyffredinol, gellir rhannu casglu tystiolaeth, ymgysylltu ac ymgynghori yn dri cham, a nodir isod.

***Cam 1 – Ymgynghori cyhoeddus (2020)***

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos rhwng 30 Gorffennaf a 22 Hydref 2020 yn ymwneud â chynigion i wahardd nifer o gynhyrchion plastig untro sydd yn aml yn cael eu taflu, ac roedd hyn yn cynnwys cwestiwn penodol ar weips gwlyb:

| |
|---|
| ***'Cwestiwn 11: A ddylid cynnwys weips mewn cynigion ar gyfer gwaharddiadau pellach yn y dyfodol neu a ddylid cyflwyno mesurau eraill i fynd i'r afael â nhw, er enghraifft Cyfrifoldeb Estynedig*** |

Yn ystod y cam hwn, oherwydd cyfyngiadau COVID, cyfyngwyd ar gyfleoedd i ymgysylltu. Cynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein gyda grwpiau gwahanol, roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Senedd Ieuenctid a grŵp cymunedol etholaethol lleol lle'r oedd plant a phobl ifanc yn bresennol.

Crynodeb o'r ymatebion a'r dystiolaeth a gasglwyd

Derbyniwyd cyfanswm o 3,581 o ymatebion i'r prif ymgynghoriad ac o'r rhain, ymatebodd 2,373 i'r cwestiwn penodol ar weips gwlyb. O'r ffigwr hwn, roedd 63% o blaid gweithredu pellach, gyda'r mwyafrif yn cefnogi gwaharddiad ar y cynhyrchion hyn. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn ffafrio dull mwy cynnil a oedd yn cynnwys yr angen i reoliadau dargedu cynhyrchion a hysbysebwyd fel rhai "y gellid eu fflysio", ond nad oeddent yn bioddiraddio nac yn ymddatod yn yr un modd â phapur tŷ bach. Roedd galwadau hefyd i gadw mynediad at weips at ddibenion hylendid, gan gyfeirio at eu pwysigrwydd i rai grwpiau nodwedd gwarchodedig, er enghraifft pobl anabl a hefyd y rhai sy'n gofalu am fabanod neu blant ifanc.

Yn ein hymgysylltiad ag aelodau'r Senedd Ieuenctid, tynnodd rhai pobl sylw at bryderon am y risg bosibl y byddai'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r gwaharddiadau ar sail iechyd a/neu hygyrchedd yn cael eu stigmateiddio fel nad oeddent yn poeni am yr amgylchedd pan nad oedd hyn yn wir. Nododd un aelod o'r Senedd Ieuenctid fod rhwystrau economaidd-gymdeithasol yn aml i bobl ifanc "wneud y peth iawn" o ran prynu cynhyrchion amgen. Er enghraifft, efallai na fydd gan y rhai sy'n byw mewn

ardaloedd llai cyfoethog siopau di-blastig, neu efallai y byddant yn gweld cynhyrchion amgen yn rhy ddrud. Teimlwyd y gellid gwneud mwy i wneud y cynhyrchion hyn yn fwy hygyrch ac yn rhatach. Wrth ystyried y safbwyntiau hyn rydym wedi ceisio tynnu sylw at y gwahaniaethau prisiau posibl rhwng plastig a dewisiadau eraill di-blastig wrth ddatblygu ein gwaith Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, esboniodd Comisiynydd Plant Cymru eu bod nhw, ynghyd â Phanel Ymgynghorol Pobl Ifanc Comisiynydd Plant Cymru, yn "*cefnogi'r cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i wahardd yr eitemau plastig untro a nodwyd ar gyfer defnydd cyffredinol eang, fodd bynnag, rhaid rhoi eithriadau clir ac wedi'u hystyried yn gadarn ar waith i sicrhau nad yw'r penderfyniad hwn yn effeithio'n andwyol ar rai grwpiau o bobl. Cafodd effaith y gwaharddiad hwn ar unigolion ag anableddau, a rhai pryderon iechyd ei nodi fel pryder allweddol gan fy Mhanel*". Nid oedd unrhyw sylwadau penodol ar y cwestiwn yn ymwneud â weips gwlyb.

Mae detholiad o'r adborth amrywiol a gawsom gan y rhai sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, yn gofalu amdanynt neu'n eu cynrychioli isod. Mae ymatebion gan blant a phobl ifanc wedi'u crynhoi yn y paragraffau uchod.

*"Mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer gofalu am blant. Fodd bynnag, mae dewisiadau eraill ar gyfer glanhau heblaw weips glanhau. Hyd nes y bydd dewisiadau amgen addas ar gyfer gofal plant, nid wyf yn gwybod a ellir newid hyn. Fodd bynnag mae'r rhain yn cael effaith ddofn ar yr amgylchedd ac mae angen dod o hyd i ddewis arall".* **Gwasanaeth Ieuenctid Bro Morgannwg**

*"Mae weips gwlyb yn wastraff arian ac adnoddau! Defnyddiwch ddŵr!"* **Athro, Ysgol Gynradd Caerau**

*"Nid yw'r disgrifiad cyffredinol o 'weips gwlyb' yn ddefnyddiol yn y cyd-destun hwn. Mae angen pwyso am gynhyrchion bioddiraddadwy untro (mae rhai eisoes ar gael). Os nad oes modd ailgylchu unrhyw eitem untro (gan gynnwys ystod eang o ddeunyddiau pecynnu diangen) yn hawdd ei ailgylchu neu ei fioddiraddio'n llawn, yna dylid gosod gwaharddiad arnynt".* **Pennaeth**

*"Mae weips yn ddefnyddiol ac wedi cael eu defnyddio llawer yn ystod Covid ond dylid adolygu eu cyfansoddiad".* **Aelod o staff cylch chwarae**

*"Fodd bynnag, byddai angen archwilio syniadau am gael rhywbeth arall yn gyntaf. Gellid caniatáu eu defnyddio o fewn rhai lleoliadau ac ar gyfer plant ifanc - yn anodd ei fonitro ond byddai unrhyw ostyngiad yn ddefnyddiol".* **Dienw**

*"Os mai cynhyrchwyr oedd angen gwneud y newidiadau ac na fyddai'r costau hyn yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr, gan y gallai hyn arwain at deuluoedd incwm isel sydd â phlant yn dioddef"*. **Dienw**

*"I'r defnyddiwr, mae cael plant yn ddigon anodd! Cyflwyno dirwyon os caiff ei ganfod yn achosi llygredd ac ati. Mae llawer o fusnesau, gan gynnwys yr NS, yn defnyddio weips ar gyfer diheintio. Mae gwaharddiad yn anodd"...*
**Dienw**

*"Mae gen i ddau o blant o dan 10 oed, alla i ddim gweld pam mae unrhyw un yn teimlo bod angen y weips tafladwy hyn. Nid oedd gan fy rhieni nhw, rwy'n iach, mae fy mhlant yn iach! Rwyf hefyd wedi gorfod dadflocio pibellau carthffos mewn eiddo rhent yr wyf yn eu rheoli. Mae pobl yn parhau i'w fflysio i lawr y toiled er gwaethaf cyngor i beidio, fel y gwelir mewn unrhyw leoliad trin gwastraff neu yn wir ar draethau".* **Dienw**

***Cam 2 – Datblygu deddfwriaeth ac ymgysylltu wedi'i dargedu (2022)***

Yn dilyn cau'r ymgynghoriad ym mis Hydref 2020, gwnaed gwaith wedyn i ddatblygu ein cynigion polisi ymhellach ac i nodi'r ymyrraeth fwyaf effeithiol i fynd i'r afael â llygredd plastig o'r ffynhonnell hon. Yn gynnar yn 2022, penderfynodd Gweinidogion Cymru gyflwyno Deddf 2023 i fynd i'r afael â'r difrod amgylcheddol a achosir gan gynhyrchion plastig untro sydd yn aml yn cael eu taflu. Roedd hyn yn cynnwys ehangu'r cynigion gwreiddiol posibl i gynnwys bagiau siopa plastig untro, caeadau a chynwysyddion bwyd polystyren a weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

Er mwyn deall effeithiau posibl unrhyw ddeddfwriaeth, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer casglu tystiolaeth wedi'i dargedu a hwyluso sawl sesiwn ymgysylltu ag ystod o randdeiliaid cyn cyflwyno Deddf 2023. Cynhaliwyd y gwaith hwn rhwng mis Ebrill 2022 a mis Awst 2022 ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ddiwydiant, y sector manwerthu, iechyd a gofal cymdeithasol, y rhai sy'n cynrychioli grwpiau nodwedd gwarchodedig a'r amgylchedd. Amlygodd ymgysylltu â gweithgynhyrchwyr fod rhai weips wedi'u cynllunio'n arbennig at ddibenion penodol ac mewn rhai achosion maent wedi cael eu profi a'u trwyddedu ar gyfer y tasgau penodol hyn. Nodwyd bod y rhain naill ai at ddibenion glanhau meddygol neu arbenigol.

Nid oedd ymgysylltu â sefydliadau fel Sgrinio Clyw Babanod Cymru a Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru, Grŵp Diddordeb Arbennig Ieuenctid Cymru a'r Gymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cymru (PACEY Cymru) yn nodi unrhyw bryderon ychwanegol oherwydd bod dewisiadau di-blastig amgen ar gael ar y farchnad am brisiau tebyg. Ymgysylltwyd hefyd â Grŵp Diddordeb Arbennig Newid Hinsawdd Ieuenctid Cymru (gweler isod).

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu WRAP Cymru, sefydliad amgylcheddol anllywodraethol, i gynnal arolwg ar-lein o 1,003 o oedolion rhwng 4-17 Gorffennaf 2022 i ddeall ymddygiadau a safbwyntiau defnyddwyr mewn perthynas â weips gwlyb. Roedd cwestiynau'n canolbwyntio ar amlder prynu a defnyddio, gwaredu, canfyddiad o wipes gwlyb fel ffynhonnell sbwriel ac ymatebion i ymyriadau polisi gwahanol. Er nad oedd yr arolwg yn targedu plant a phobl ifanc, rhoddodd dystiolaeth o pam fod pobl yn prynu weips gwlyb a sut roeddent yn eu defnyddio, yn enwedig mewn perthynas â'u defnyddio gyda babanod, plant a phobl ifanc.

Mae trosolwg o ganlyniadau arolygon WRAP a gofal plant, sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc, wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith hwn.

Crynodeb o'r ymatebion a'r dystiolaeth a gasglwyd

Ymgysylltiad â Grŵp Diddordeb Arbennig Newid Hinsawdd Ieuenctid Cymru

Er na chodwyd unrhyw sylwadau penodol yn ystod ein hymgysylltiad â'r grŵp hwn, mynegodd y plant a'r bobl ifanc a oedd yn bresennol eu cefnogaeth gyffredinol i wahardd weips gwlyb. Er bod cefnogaeth gyffredinol i'r gwaharddiad, un rheswm a roddwyd yn erbyn y gwaharddiad oedd bod dulliau priodol ar gael yng Nghymru i waredu weips yn ddiogel heb achosi sbwriel na'u fflysio (e.e. bagiau gwastraff porffor a ddarperir ar gyfer casglu ar ymyl y ffordd o wastraff clinigol, cynhyrchion ymataliaeth a chewynnau).

Arolygon wedi'u targedu

*Meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant* - O blith rhai sy'n gweithio mewn meithrinfeydd, dywedodd y rhan fwyaf fod weips gwlyb yn cael eu defnyddio'n ddyddiol i lanhau wynebau a dwylo'r plant yn eu gofal, newid cewynnau, glanhau arwyneb desgiau, teganau neu ddrysau. Nodwyd bod pwysigrwydd defnyddio weips gwlyb wedi cynyddu yn dilyn cyflwyno canllawiau COVID-19 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i staff ddefnyddio cyfarpar diogelu personol untro i fodloni'r gofynion iechyd a diogelwch yn eu lleoliadau / swyddfeydd. Dywedodd rhai y byddai pryderon ynghylch symud i ddewisiadau amgen di-blastig, yn enwedig pe baent yn fwy costus a chwestiynu a oeddent yn dal i allu cadw at bolisïau iechyd a diogelwch ar gyfer rheoli heintiau a gofynion eraill.

Fodd bynnag, dywedodd rhai ymatebwyr fod rhieni eisoes wedi gofyn i'r meithrinfeydd symud tuag at ddefnyddio gwlanenni a bod llawer bellach wedi gwneud hyn ers sawl blwyddyn. Soniodd eraill fod canllawiau clir bellach wedi'u darparu oedd yn annog defnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio fel cewynnau "y gellir eu hailddefnyddio," ac eitemau tafladwy eraill er bod cynnydd y newid yn araf. Teimlwyd bod pandemig COVID-19 wedi tanseilio'r ymdrechion hyn gan fod yr elfen dafladwy o weips yn cael ei ystyried yn ddull mwy cadarn o helpu i ddelio â rheoli heintiau.

*Ysbytai a fferyllfeydd* - Cafwyd safbwyntiau drwy drafodaethau uniongyrchol gyda Chymdeithas Feddygol Prydain Cymru a thrwy arolwg e-bost i bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Er nad oedd cwestiynau wedi'u hanelu'n benodol at ofal plant a phobl ifanc, rhagwelir y byddai gofal unigolion o'r fath wedi cael ei ystyried yn yr ymatebion.

Amlygodd y rhai sy'n gweithio yn y sector hwn fod ystod eang o ddefnyddiau ar gyfer weips gwlyb. Roedd y rhain yn cynnwys gofal personol cleifion, er enghraifft gellir eu defnyddio ar gyfer bath yn y gwely a glanhau yn ystod gofal ymataliaeth. Nodwyd bod y mathau hyn o weips yn aml yn cynnwys cyfryngau glanhau, lleithyddion ac amddiffynyddion croen i gyd mewn un. Roedd defnyddiau eraill yn cynnwys glanhau cyffredinol a sterileiddio a rheoli heintiau - ar gyfer pobl, arwynebau ac offer. Amlygwyd elfen blastig weips gwlyb hefyd fel nodwedd bwysig gan rai ymatebwyr. Mae hyn oherwydd y ffaith ei fod yn helpu i ddarparu cryfder i'r deunydd a chyflawni rhai manteision o ran ffibrau ac effeithiolrwydd.

Fodd bynnag, rhoddwyd tystiolaeth hefyd gan rai o Fyrddau Iechyd y GIG yn archwilio dewisiadau amgen “di-blastig”. Er enghraifft, roedd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno weips “di-blastig" yn rhai o'u Hunedau Gofal Dwys, er y nodwyd bod weips addas wedi bod yn anodd cael gafael arnynt. Amlygodd yr ymatebydd hefyd fod newidiadau o'r fath yn aml yn anodd eu cyflwyno ac roedd angen ymgysylltu â staff i sicrhau bod y cynnyrch newydd yn cael ei dderbyn.

*Arolwg ar-lein WRAP*

Helpodd y data hwn i lywio ein dealltwriaeth polisi o'r math o weips gwlyb a ddefnyddir a pha mor aml y cânt eu defnyddio ymhlith y boblogaeth gyffredinol. Amlygodd y dystiolaeth a gasglwyd fod defnyddio weips gwlyb yn gyffredin, gyda dim ond 11% o'r ymatebwyr i'r arolwg yn nodi nad oeddent erioed wedi prynu rhai a 30% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn prynu 5 neu fwy o'r categorïau o weips gwlyb yn rheolaidd neu weithiau. Daeth yr ymateb olaf yn bennaf gan y rhai rhwng 18 a 34 oed a gan y rhai â phlant gartref. Er gwaethaf eu defnydd cyffredin yn y cartref, canfu'r ymchwil fod cefnogaeth eang i ymyriadau polisi, gyda bron i bedwar o bob pump (78%) o'r ymatebwyr naill ai'n gryf o blaid neu rywfaint o blaid gwahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

### *Cam 3 – Ymgynghoriad ar draws y DU (2023)*

Cynhaliodd Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban ac Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon ymgynghoriad chwe wythnos ar ei gynigion. Cafodd hwn ei gynnal rhwng 14 Hydref 2023 a 25 Tachwedd 2023.

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar weips gwlyb yn cynnwys plastig ac yn mynd i'r afael â'u heffaith ar yr amgylchedd. Gofynnodd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig am safbwyntiau ar waharddiad arfaethedig ar weithgynhyrchu, cyflenwi a gwerthu weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Byddai'r gwaharddiad arfaethedig, yn amodol ar ganlyniadau ymgynghori, yn cael ei rhoi ar

waith gan wledydd unigol yn y DU ac yn cael ei weithredu trwy eu mecanweithiau deddfwriaethol eu hunain.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau ar ystod o feysydd a oedd yn cynnwys effaith debygol y gwaharddiad arfaethedig ar ddefnyddwyr, yn enwedig i'r rhai â nodweddion gwarchodedig e.e. pobl anabl ac ati. Gofynnwyd hefyd am safbwyntiau ynghylch a oedd angen unrhyw eithriadau ar gyfer weips gwlyb yn cynnwys plastig.

Gan mai proses ymgynghori dan arweiniad y DU oedd hon, nid oedd unrhyw ymgysylltiad wedi'i dargedu at blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, rhannwyd yr ymgynghoriad ag ystod eang o grwpiau a sefydliadau.

<u>Ymatebion a thystiolaeth a gasglwyd</u>

Nododd dadansoddiad o ymatebion o bob rhan o'r DU bryderon tebyg i'r rhai a godwyd mewn ymgynghoriadau ac ymgysylltu blaenorol gan Lywodraeth Cymru h.y. addasrwydd cynhyrchion amgen, cost y cynhyrchion hynny a'u defnydd gan y rhai sydd â phlant a phobl ifanc neu'r rhai sy'n gyfrifol am ofalu am blant a phobl ifanc. Gweler isod ddetholiad o ymatebion i gwestiwn ymgynghori ar ba grwpiau, os o gwbl, y byddai’r gwaharddiad yn effeithio’n negyddol arnynt.

*"Bydd yn anoddach i rieni plant ifanc, er enghraifft. Ond fel rhiant, dwi'n meddwl na fydd hi'n amhosib, ac mae'r da'n gorbwyso'r drwg yn yr achos hwn".* **Anhysbys, Lloegr.**

*"Rwy'n credu y bydd hyn yn effeithio’n negyddol ar y grwpiau hyn o bobl, oherwydd nid yw weips di-blastig mor gryf â'r rhai â phlastig:*

*- rhieni plant mewn cewynnau".* **Anhysbys, Lloegr**

*"Bydd yn rhaid i rieni babanod a phlant ifanc ddefnyddio weips babanod drutach, o ansawdd gwaeth os yw'r gwaharddiad arfaethedig yn cael ei weithredu".* **Dienw, Cymru**

*Ydy, mamau plant sydd angen mynediad at weip pan fo angen, y rhai sydd â rhywfaint o blastig ynddynt yw'r unig rai i gael eu tynnu'n hawdd o'r pecyn.* **Dienw, Cymru**

***Cam 4 – Ymgysylltu i gefnogi Asesiadau o’r Effaith (2024)***

Gyda chytundeb Gweinidogol ar gyfer gwaharddiad ledled y DU ar gyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, ymgysylltodd swyddogion Llywodraeth Cymru â phlant a

phobl ifanc i helpu i ddatblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Asesiad Effaith Integredig gofynnol. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio arolygon a gwblhawyd gan blant a phobl ifanc ac ymgysylltu â grwpiau penodol.

Ar 13 Gorffennaf, mewn sesiwn Cyfiawnder Cymdeithasol a Newid Hinsawdd Plant yng Nghymru, cymerodd plant a phobl ifanc ran mewn trafodaethau am gynnig Llywodraeth Cymru i wahardd cynhyrchion plastig untro problemus, gan gynnwys weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, a'r effeithiau y byddent yn eu cael ar blant a phobl ifanc. Drwy weithgareddau ac adnoddau rhyngweithiol, roedd y sesiwn yn annog deialog agored, meithrin meddwl beirniadol a chyfle i bobl ifanc fynegi eu barn, ac ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio effeithiau ar blant a phobl ifanc. Fe wnaeth Plant yng Nghymru hefyd greu arolwg i bobl ifanc gymryd rhan ynddo yn eu hwythnos breswyl yn ystod yr haf. Mae'r cwestiynau ymgynghori a roddwyd i Plant yng Nghymru i'w cynnwys yn yr arolwg ar-lein yn **Atodiad 1.**

Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein hefyd ynghylch y gwaharddiad arfaethedig ar gynhyrchion plastig untro problemus, gan gynnwys weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.  Rhannwyd arolwg ar-lein gydag Eco-Sgolion i blant a phobl ifanc ei gwblhau drwy'r cyfryngau cymdeithasol, wedi'i anelu at fyfyrwyr ysgol uwchradd. Rhannwyd y cefndir polisi a’r holiadur hefyd, ar ffurf copi caled, gyda phlant a phobl ifanc 14–18 oed yng nghynhadledd ‘Our Earth, Our Future' ym mis Gorffennaf.

Ymatebion a thystiolaeth a gasglwyd

O ran y safbwyntiau a rannwyd gan y rhai a wnaeth ymateb i'r arolwg Eco-Sgolion a sesiwn ymgysylltu Plant yng Nghymru, ni chafwyd unrhyw adborth arwyddocaol. Mewn perthynas â'r arolwg Eco-Sgolion dim ond un ymatebydd a amlygodd bryderon posibl o barhau i allu defnyddio weips gwlyb at ddibenion glanhau ar ôl gwaharddiad. Roedd ymatebion i'n harolwg Plant yng Nghymru yn dangos bod y rhai a ymatebodd yn teimlo na fyddai gwahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yn achosi unrhyw broblemau iddynt, ond roedd ymwybyddiaeth o ddewisiadau amgen di-blastig ymhlith y rhai a holwyd yn isel (gofynnwyd iddynt a oedden nhw wedi gweld weips di-blastig mewn siopau). Cyfeiriwyd at gostau byw fel rheswm pam y byddai pobl yn dewis opsiynau rhatach sy’n cynnwys plastig.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith y mae eich polisi yn debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch chi'n eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Mae'r dystiolaeth a'r safbwyntiau rydym wedi'u cofnodi yn ystod y broses o ddatblygu’r polisi wedi amlygu lefel uchel o gefnogaeth i fynd i'r afael ag effeithiau

amgylcheddol weips gwlyb sy'n cynnwys plastig. Er bod rhai pryderon wedi'u codi ynghylch cost uwch posibl dewisiadau amgen di-blastig (a allai effeithio ar y rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu neu'r rheini mewn teuluoedd incwm isel), credwn fod yna bellach ystod ddigonol o gynhyrchion ar gael a fydd yn sicrhau y bydd weips gwlyb yn dal i fod ar gael i bawb sydd eu hangen.

## Eithriadau i liniaru effeithiau

Rydym yn cydnabod bod dewisiadau amgen di-blastig naill ai'n anaddas neu ddim ar gael ar gyfer rhai defnyddiau.

Yn dilyn yr ymgynghoriad pedair gwlad yn 2023, nodwyd bod angen parhau i ganiatáu i weips fod ar gael at ddibenion diwydiannol a busnes eraill, megis ysbytai neu safleoedd cynhyrchu bwyd. Byddai hyn yn caniatáu i fusnesau eraill, fel cyfanwerthwyr, gael weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ganddyn nhw neu'n uniongyrchol gan y gwneuthurwr.

Er mwyn cyfrif am y rhai sy'n derbyn neu sydd angen gofal meddygol yn eu cartref eu hunain, cynigiwyd y byddai eithriad yn caniatáu i fferyllfeydd cofrestredig gyflenwi a gwerthu. Ni chaniateir weips gwlyb sy'n cynnwys plastig i'w gwerthu ar y silffoedd, a bydd angen i gwsmeriaid sydd angen y cynhyrchion hyn at ddibenion meddygol ofyn yn benodol i'r fferyllydd am y rhain. Roedd y cynnig hwn yn seiliedig ar y model ar gyfer y cyfyngiadau ar gyflenwi gwellt plastig untro o dan Ddeddf 2023.

Yn dilyn trafodaethau pellach, rydym wedi cytuno ar eithriad  i ganiatáu cyflenwad parhaus, neu gynnig cyflenwi weips gwlyb a fwriadwyd neu a weithgynhyrchwyd i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol. Bydd hyn o fudd i'r plant a'r bobl ifanc hynny sy'n derbyn neu'n rhoi gofal meddygol yn eu cartref eu hunain ac mewn lleoliadau iechyd neu ofal.

Bydd manylion llawn yr eithriadau hyn yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau a’u nodi'n fanylach mewn canllawiau. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sefydliadau perthnasol i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

### Effeithiau ar Blant a Phobl Ifanc

Rydym angen i blant a phobl ifanc chwarae rhan flaenllaw wrth gyflawni ymrwymiadau byd-eang i leihau llygredd plastig. Rydym yn ymwybodol, trwy ohebiaeth a anfonwyd i Lywodraeth Cymru gan ysgolion a phlant ysgol, fod hwn yn faes o bryder sylweddol ac maent yn galw am weithredu ar unwaith i'w atal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Y prawf mwyaf heriol ar gyfer ein cynlluniau yw bodloni

disgwyliadau plant a phobl ifanc a fydd yn ysgwyddo baich llawer mwy o gostau ac effaith llygredd plastig nag unrhyw un sydd mewn sefyllfa o rym heddiw. Bydd pobl ifanc Cymru yn wynebu effeithiau parhaus a chynyddol llygredd plastig os nad eir i'r afael â’r lefelau sy'n mynd i’r amgylchedd. Gall hyn achosi straen, pryder ac effeithiau negyddol ar les meddyliol.

Mae mentrau ledled Cymru yn cefnogi pobl ifanc i weithredu i ymateb i bryderon amgylcheddol o'r fath, ac mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn darparu platfformau i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi a bod eu lleisiau yn cael eu clywed ledled Cymru. Y rhaglen Eco-Sgolion yw'r prif blatfform y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i'w helpu i ddatblygu ymddygiadau cynaliadwy yn eu hysgolion a'u cymunedau, wrth adeiladu ar eu sgiliau, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd, a hefyd yn cynnwys addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Effeithiau cadarnhaol

Drwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, mae'n amlwg eu bod yn deall yr effaith gadarnhaol y mae eu gweithredoedd a'u penderfyniadau yn ei chael ar lygredd plastig. Maent yn dangos brwdfrydedd yn y gallu i ddod yn fwy cynaliadwy a moesegol, ac maent yn dangos dealltwriaeth o'r effaith y mae eu dewisiadau a'u gwerthoedd yn ei chael ar eu hamgylchedd a'u cymunedau, trwy ddewis defnyddio dewisiadau amgen sydd ar gael yn rhwydd yn lle plastigau neu ddefnyddio cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio. Mae ymgysylltu â'r materion hyn yn grymuso plant a phobl ifanc ac yn eu helpu i ddeall hefyd sut y bydd y cynigion hyn yn effeithio ar grwpiau eraill fel pobl ifanc a phobl hŷn neu bobl anabl. Mae ymgysylltu o'r fath hefyd yn awgrymu ffyrdd adeiladol o ymgysylltu ymhellach â nhw ar y mater hwn trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ati.

Mae mynd i'r afael â'n gorddefnydd o blastigau untro yn fater sydd wedi'i hyrwyddo gan lawer o bobl ifanc. Mae yna lawer o ymgyrchoedd dan arweiniad plant a phobl ifanc i frwydro yn erbyn gwastraff plastig. Maen nhw wedi trefnu sawl ymgyrch, gan gynnwys adroddiad Senedd Ieuenctid Cymru ar sbwriel a gwastraff plastig. Mae ein cynigion yn anelu at adeiladu ar hyn. Rydym am newid ymddygiad defnyddwyr tuag at ddefnyddio llai o gynhyrchion plastig untro, fel weips gwlyb sy'n cynnwys plastig.

Hefyd, bydd y cynigion hyn yn bodloni'r gofyniad yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol Erthygl 31 ac Erthygl 24, drwy leihau llygredd plastig a darparu mannau gwyrdd a naturiol glanach fel traethau, coedwigoedd, parciau a chefn gwlad ar gyfer cerdded, dysgu, rhedeg, beicio a chwarae.

Effeithiau negyddol

Nododd ein prosesau ymgynghori ac ymgysylltu effeithiau posibl ar y plant a'r bobl ifanc hynny a allai fod yn ddibynnol ar weips gwlyb plastig at ddibenion meddygol. Fel y nodwyd uchod, rydym wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn drwy ddarparu eithriadau. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch argaeledd weips i'w defnyddio gan blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gyfrifol am eu gofal, ond credwn fod digon o gynhyrchion eraill di-blastig, untro ac y gellir eu hailddefnyddio ar gael ar y farchnad i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol bosibl.

Rydym yn cydnabod y gallai cost ac ansawdd y dewisiadau amgen hynny fod yn rhwystrau i rai. Archwiliwyd ystyriaethau cost ar gyfer cynhyrchion amgen fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r polisi ac er y gall y deunyddiau di-blastig hyn fod yn ddrytach na rhai plastig, rydym yn rhagweld y bydd y newid parhaus i ddeunyddiau amgen mewn cynhyrchu yn helpu i leihau'r costau hyn dros amser.

| **Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol** | **Yn gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 1:** Mae gan bob un dan 18 oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn. | x | | Yn ystod ein proses llunio polisi, rydym wedi ceisio ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i ddeall eu barn ac asesu unrhyw effeithiau negyddol/ cadarnhaol posibl. |
| **Erthygl 2** Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono. | x | | Rydym wedi ceisio ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau Plant a Phobl Ifanc ac wedi derbyn safbwyntiau yn tynnu sylw at bryderon ynghylch costau a hygyrchedd weips di-blastig. Mae'r safbwyntiau hyn wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu ein polisïau. |
| **Erthygl 12** Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio | x | | Mae'r polisi yn parchu hawl plant a phobl ifanc i fynegi eu barn ac i'r farn honno gael ei chlywed ar faterion sy'n effeithio arnynt, trwy eu cynnwys yn y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. | | | broses ymgynghori a gwneud penderfyniadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am farn a phrofiadau pobl ifanc ar ein cynigion i wahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ac mae wedi eu hystyried wrth ddatblygu'r polisi. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc yn cefnogi gweithredu i atal llygredd plastig, er eu bod wedi tynnu sylw at yr angen i sicrhau bod mynediad at ddewisiadau amgen addas ar gyfer y rheini a allai fod eu hangen at ddibenion iechyd neu hylendid. Rydym wedi ceisio mynd i'r afael â'r pryderon hyn trwy ganiatáu i rai weips barhau i fod ar gael gan fferyllwyr. |
| **Erthygl 13** Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw nac i eraill. | x | | Mae ein Canllawiau Statudol presennol eisoes ar gael ar ffurf Hawdd ei Ddeall a byddant yn cael eu diweddaru ar ôl cymeradwyo'r cynigion yn y Senedd.<br><br>Fel rhan o'n gwaith parhaus i fynd i'r afael â llygredd plastig, byddwn yn parhau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i'w hysbysu o'n cynnydd. |
| **Erthygl 23** Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol. | x | | Bydd ein cynigion yn cynnwys eithriadau ar gyfer weips gwlyb i sicrhau eu bod yn parhau i fod ar gael i'r rhai sydd eu hangen ar gyfer cyflyrau meddygol neu sy'n gysylltiedig ag iechyd. |
| **Erthygl 24** Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, | x | | Mae newid hinsawdd yn fater iechyd cyhoeddus dybryd a fydd yn rheoli ein bywydau fwyfwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw’n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | | | gan ei fod yn effeithio'n andwyol ar y gofynion iechyd mwyaf sylfaenol: aer glân, dŵr diogel, digon o fwyd, a lloches ddigonol. Mae'n effeithio ar yr amgylchedd o'n cwmpas – gall y mannau lle'r ydym yn byw, gweithio, dysgu a chwarae – gael effaith sylweddol ar ein hiechyd a'n lles.<br><br>Bydd gweithredu'r cynigion hyn yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar ddiogelu ein hamgylchedd, ein hiechyd a'n lles yn y tymor byr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. |

Ni allwn ragweld unrhyw effeithiau posibl ar Hawliau Dinasyddion yr UE (fel y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb) sy'n ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed, o'r ddeddfwriaeth arfaethedig.

**4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogol**

Mae'r cynnig polisi yn seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil cadarn ar effeithiau amgylcheddol weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, yn ogystal â barn rhanddeiliaid amrywiol, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth hon, mae Llywodraeth Cymru yn cynghori'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i gymeradwyo'r polisi o wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yng Nghymru, fel rhan o'r strategaeth ehangach i fynd i'r afael â llygredd plastig a'i effaith ar ein hamgylchedd, ein heconomi a'n hiechyd. Ein nod yw gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff drwy ddilyn egwyddorion yr hierarchaeth wastraff: Arbed, Ailddefnyddio, Ailgylchu. Mae hyn yn cynnwys symud i ffwrdd o fodel cymryd, gwneud, gwastraffu a thuag at economi gylchol.

Disgwylir i'r polisi gael effeithiau cadarnhaol ar hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, drwy ddiogelu eu hamgylchedd a'u lles pennaf. Er bod tystiolaeth ar effeithiau iechyd posibl sy'n gysylltiedig â microblastigau yn dal i gael ei hadolygu,

mae ein cynigion wedi mabwysiadu dull rhagofalus pe bai'n dod i'r amlwg y gallai microblastigau neu lygredd plastig gael effaith negyddol.

Mae gan y polisi y potensial i gael effaith negyddol ar y plant a'r bobl ifanc hynny (neu deuluoedd â phlant a phobl ifanc), sydd ar hyn o bryd yn defnyddio weips gwlyb sy'n cynnwys plastig ar sail pris. Fodd bynnag, gyda llawer o weithgynhyrchwyr a manwerthwyr eisoes yn symud i ddeunyddiau eraill, rhagwelir y bydd unrhyw gynnydd tymor byr mewn costau yn lleihau unwaith y bydd mwy o gynhyrchion yn cael eu rhoi ar y farchnad.

Yn dilyn hynny, mae'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cytuno â'r cyngor ac yn cymeradwyo'r polisi o wahardd cyflenwi weips gwlyb sy'n cynnwys plastig yng Nghymru, yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd.

## 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Unwaith y bydd ein Hasesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant wedi'i gwblhau a'n rheoliadau drafft wedi'u cytuno, bydd y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ynghyd ag Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig ac Asesiadau Amgylcheddol perthnasol eraill.

## 6. Cyfathrebu gyda Phlant a Phobl Ifanc

Byddwn yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc i gyfleu cynnydd y polisi hwn ond hefyd i ymgysylltu â nhw ynghylch agenda ehangach Llywodraeth Cymru i leihau cynhyrchion untro sy'n cael eu taflu yn ein strydoedd a'n mannau gwyrdd, lleihau llygredd a mynd i'r afael â'r argyfwng Newid Hinsawdd.

## 7. Monitro ac Adolygu

Mae ymrwymiad Gweinidogol i adolygu gweithrediad Deddf 2023, y ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cael ei defnyddio i gyflwyno'r rheoliadau hyn. Er nad yw cwmpas a natur yr adolygiad hwn wedi'i gytuno eto, rhagwelir y bydd ystyriaeth yr effeithiau/buddion a nodwyd yn Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant Deddf 2023 a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses adolygu hon.

Os nodir unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth drwy'r broses hon sy'n effeithio ar hawliau plant a phobl ifanc, bydd y ddwy ddogfen yn cael eu hadolygu a'u diwygio lle bo hynny'n briodol.

Mae tystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgysylltu wedi'i dargedu yn cefnogi'r wybodaeth a dderbyniwyd yn ystod gwahanol gamau ymgynghori’r datblygiad polisi hwn. Rydym wedi penderfynu caniatáu cyflenwad parhaus, neu gynnig cyflenwi weips gwlyb a fwriadwyd neu a weithgynhyrchwyd i'w defnyddio mewn cysylltiad â gofal neu driniaeth feddygol. **Felly, mae'r eithriad arfaethedig sydd i'w gynnwys yn y rheoliadau yn aros yr un fath fel y nodir uchod.**

**ATODIAD 1**

Holiadur ar-lein Plant yng Nghymru mewn perthynas â chynnig Llywodraeth Cymru i wahardd weips gwlyb â chynnwys plastig.

1. Weithiau mae weips gwlyb gyda phlastig i’w cael yn ein hafonydd a'n moroedd. Er mwyn helpu i atal hyn rydyn ni eisiau gwahardd weips gwlyb gyda phlastigau. Ydych chi'n meddwl bod hwn yn syniad da neu'n syniad drwg?

2. Ydych chi wedi gweld weips gwlyb di-blastig yn y siopau rydych chi'n mynd iddyn nhw?

3. Os byddwn ni’n gwahardd weips gwlyb sy'n cynnwys plastig, ydych chi'n credu y bydd hyn yn achosi problemau i chi neu bobl eraill rydych chi'n eu hadnabod? Os felly, sut ydych chi'n meddwl y gallai hyn ddigwydd?